

Ar waith: Canllawiau ar fynegi pryderon

Diwygiwyd
Mai 2017

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017.



Cynnwys

Ynghylch y canllawiau hyn	4
Canllawiau ar fynegi pryderon	6
1. Pwysigrwydd mynegi pryderon	6
2. Sut i fynegi pryderon	7
3. Y gyfraith	8
4. Canllawiau ychwanegol ar gyfer cyflogwyr	9
5. Ble i gael rhagor o wybodaeth.....	10
Ffynonellau gwybodaeth eraill.....	11

Ynghylch y canllawiau hyn

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n swyddogaeth, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro pwysigrwydd mynegi pryderon i weithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol), a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth. Rhaid i weithwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth weithredu'r canllawiau hyn.

Dylai gweithwyr fferyllol deimlo'n hyderus bod pob aelod o'u tîm yn gyfarwydd â'r materion sy'n codi yn y canllawiau hyn ac yn deall y cyfrifoldebau sydd arnynt o ran mynegi pryderon.

Os yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ansicr ynghylch yr hyn y dylai ei wneud mewn unrhyw sefyllfa benodol, dylai wastad ofyn am gyngor gan ei gyflogwr, darparwr yswiriant indemniad, undeb, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at safon 8 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, sy'n dweud:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol godi llais pan fo ganddynt bryderon neu pan fo pethau'n mynd o chwith



Gweithredu'r safon

Mae ansawdd y gofal mae pobl yn ei dderbyn yn gwella pan fo gweithwyr fferyllol yn dysgu gan adborth ac yn herio ymddygiad ac arferion gwaith gwael. Mae hyn yn cynnwys codi llais pan fo ganddynt bryderon. Mae bod yn onest gyda'r person sy'n derbyn gofal a chyda chydweithwyr a chyflogwyr wrth galon y safon hon. Cyfeirir at hyn, fel arfer, fel dyletswydd didwylledd – sy'n golygu bod yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon, ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad rydym yn eu disgwyl isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- hybu ac annog diwylliant o ddysgu a gwella
 - herio arferion gwaith ac ymddygiad gwael
 - mynegi pryderon, hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny
 - hysbysu eu cyflogwr ac awdurdodau perthnasol (yn cynnwys y CFfC) yn brydlon am unrhyw bryderon sydd ganddynt
 - cefnogi pobl sy'n mynegi pryderon a rhoi adborth
 - agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith
 - ymddiheuro, a rhoi esboniad, pan fo pethau'n mynd o chwith
- adfyfrio ar adborth neu bryderon a fynegir, gweithredu mewn dull priodol ac ystyried yr hyn y gellir ei newid er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto
 - gwella ansawdd ac arferion gwaith fferyllol drwy ddysgu gan adborth a phethau sy'n mynd o chwith

Canllawiau ar fynegi pryderon

1. Pwysigrwydd mynegi pryderon

- 1.1. Mae gan bob gweithiwr fferyllol ddyletswydd i fynegi pryderon ynghylch unrhyw unigolyn, weithredoedd neu amgylchiadau a allai fod yn annerbyniol ac a allai arwain at risgiau i bobl sy'n derbyn gofal ac i ddiogelwch y cyhoedd.
 - eu bod yn creu trafferth i'w cydweithwyr
 - y byddai'n effeithio'n andwyol ar eu gyrfa
 - y gallai greu problemau wrth gydweithio gydag eraill
 - y gallent ddioddef dial o ryw fath
 - na fydd unrhyw beth yn newid yn sgil mynegi pryderon
- 1.2. Mae gan weithwyr fferyllol gyfrifoldeb proffesiynol i weithredu er diogelwch a lles y cyhoedd. Mae mynegi pryderon ynghylch gweithwyr fferyllol unigol, aelodau'r tîm fferyllol maen nhw'n gweithio ynddo (yn cynnwys pobl dan hyfforddiant), cyflogwyr a'u hamgylchedd gwaith yn rhan hanfodol o hyn.
- 1.3. Mae hyn yn cynnwys mynegi pryderon ac adrodd am bryderon ynghylch y bobl y dânt i gysylltiad â nhw yn ystod eu gwaith, yn cynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol, rheolwyr a chyflogwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a thriniaeth i eraill, megis gofalwyr, gweithwyr mewn cartrefi gofal neu weithwyr allweddol. Mae'n cynnwys pryderon am ymddygiad, galluedd, amgylchedd gwaith ac unrhyw weithredu a allai beryglu diogelwch unigolyn.
- 1.4. Rydym yn cydnabod y gallai gweithwyr fferyllol fod yn gyndyn o fynegi pryderon am amryw o resymau. Efallai, er enghraifft, y byddant yn poeni:
 - bod yn rhaid i'w dyletswydd gyfreithiol i ddiogelu'r bobl maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer gael blaenoriaeth dros unrhyw deyrngarwch i eraill neu unrhyw ystyriaethau eraill
 - y gallai methu â mynegi pryderon ynghylch arferion gwaith gwael arwain at niwed i bobl sy'n derbyn gofal
 - bod Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998 (DDBC) yn diogelu gweithwyr sy'n mynegi pryderon dilyn a thynnu sylw at 'gamymddygiad' yn y gweithle
- 1.5. Gall mynegi pryderon yn gynnar helpu nodi meysydd gwaith y gellid eu gwella. Mae'n galluogi cyflogwyr, rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill i weithredu'n gadarnhaol cyn gynted â phosibl cyn i bobl sy'n derbyn gofal a'r cyhoedd gael eu niweidio.
- 1.6. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gofio:
 - bod yn rhaid i'w dyletswydd gyfreithiol i ddiogelu'r bobl maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer gael blaenoriaeth dros unrhyw deyrngarwch i eraill neu unrhyw ystyriaethau eraill
 - y gallai methu â mynegi pryderon ynghylch arferion gwaith gwael arwain at niwed i bobl sy'n derbyn gofal
 - bod Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998 (DDBC) yn diogelu gweithwyr sy'n mynegi pryderon dilyn a thynnu sylw at 'gamymddygiad' yn y gweithle

- efallai na fyddant yn gweithredu'n unol â'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol os na fyddant yn mynegi pryderon a allai fod ganddynt ynghylch cydweithwyr neu eraill, ac y gallai hyn arwain at gwestiynu eu haddasrwydd nhw eu hunain i ymarfer

2. Sut i fynegi pryder

2.1. Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol gyfrifoldeb proffesiynol i fynegi pryderon dilys. Mae ganddynt y cyfrifoldeb hwn, boed yn gyflogwyr, yn gyflogeion, yn locwm neu'n aelod staff dros dro. Fel arfer, dylai gweithwyr fferyllol fynegi'r pryder wrth eu cyflogwr yn gyntaf, cyn rheoleiddiwr neu sefydliad arall. Os ydynt yn ansicr a ddylent fynegi pryder, neu ynghylch sut i fynegi pryder, dylent gael cyngor gan un o'r sefydliadau a restrir yn yr adran *Ffynonellau gwybodaeth eraill*. Bydd y broses mynegi pryderon yn amrywio, yn dibynnu ar:

- natur yr hyn sy'n peri pryder
- pwy neu beth sy'n peri pryder, ac
- a oes gofid y bydd y bobl sy'n derbyn gofal neu'r cyhoedd yn wynebu risg o niwed yn uniongyrchol neu'n syth

2.2. Gwirio polisi'r sefydliad

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisi eu cyflogwr ar fynegi pryderon neu 'chwythu'r chwiban' a'i ddilyn pryd bynnag y bo'n bosibl.

2.3. Adrodd yn ddi-oed

Os yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn credu bod pobl sy'n derbyn gofal yn wynebu risg marwolaeth neu niwed difrifol,

neu y gallent fod mewn perygl o hynny, rhaid iddynt fynegi eu pryder yn ddi-oed.

2.4. **Hysbysu'r goruchwyliwr uniongyrchol**
Bydd y person y mae gweithwyr fferyllol yn mynegi eu pryder iddo yn amrywio yn ôl natur y pryder. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd byddant yn gallu mynegi eu pryder wrth eu rheolwr llinell.

2.5. Hysbysu person addas arall mewn awdurdod neu gorff allanol

Efallai y bydd rhai sefyllfaoedd pan na fydd hi'n bosibl i weithwyr fferyllol fynegi eu gofid gyda'u rheolwr llinell. Efallai mai'r rheolwr llinell sy'n peri'r pryder, er enghraifft, neu efallai y bydd yn deyrngar iawn i'r person sy'n peri pryder. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai y bydd angen i'r gweithwyr fferyllol siarad:

- â'r person sydd wedi ei enwi fel yr un sy'n gyfrifol am ddelio gyda phryderon
- uwch reolwr yn y sefydliad, prif fferylllydd, er enghraifft, neu berchennog y fferyllfa, fferylllydd goruchwyliol, neu reolwr an-fferyllol
- y sefydliad gofal sylfaenol (yn cynnwys y swyddog atebol os yw'r pryder yn ymwneud â chyffuriau a reolir)
- y rheoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol¹

¹ Dyma'r rheoleiddwyr gofal iechyd: Y Cyngor Ciropractig Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland. Dyma'r rheoleiddwyr gofal cymdeithasol: Cyngor Gofal Cymru, Health and Care Professions Council yn Lloegr, Northern Ireland Social Care Council a'r Scottish Social Services Council.

- rheoleiddiwr systemau perthnasol y sefydliad²

2.6. **Cadw cofnod**

Dylai gweithwyr fferyllol gadw cofnod o'r pryderon sydd ganddynt, wrth bwy y maen nhw wedi eu mynegi a'r ymateb a gafwyd neu'r hyn a weithredwyd yn sgil mynegi'r pryder.

2.7. **Cadw cyfrinachedd**

Os bydd gweithwyr fferyllol yn mynegi pryder am berson penodol, person sy'n derbyn gofal, er enghraifft, neu gydweithiwr, rhaid iddynt, pryd bynnag y bo'n bosibl, gadw cyfrinachedd a phheidio â datgelu heb gydsyniad.

3. Y gyfraith

3.1 Mae'r DDBC yn disgrifio dull cam wrth gam o fynegi pryderon ac ymchwilio iddynt. Y nod yw diogelu gweithwyr rhag triniaeth annheg neu ddialedd gan gyflogwr os ydynt wedi datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd.

3.2 Yn ôl y DDBC dylai gweithwyr fferyllol fynegi pryder am faterion sydd wedi digwydd, neu y maent yn rhesymol gredu eu bod yn debygol o ddigwydd, gan gynnwys:

- perygl i iechyd neu ddiogelwch unigolyn (ysgrifennu presgripsiynau yn anghyfrifol neu'n anghyfreithlon, er enghraifft, cam-drin person sy'n derbyn gofal, neu weithiwr proffesiynol y gall fod ei iechyd neu ei addasrwydd ymarfer yn ddiffygiol)
- trosedd neu dramgwydd sifil (twyll, lladrad neu ddargyfeirio cyffuriau'n anghyfreithlon, er enghraifft)
- camweinyddu cyfiawnder
- niwed i'r amgylchedd
- celu gwybodaeth am un neu ragor o'r uchod

3.3 Nid yw hon yn rhestr lawn. Mae manylion cyswllt ffynonellau gwybodaeth yn yr adran *Ffynonellau gwybodaeth eraill* ar gyfer adegau pan fo gan weithwyr fferyllol bryder ond eu bod yn ansicr ynghylch a ddylent ei fynegi, neu sut y dylent ei fynegi.

² Mae'r rhain yn cynnwys, mewn lleoliadau ysbyty, y Care Quality Commission yn Lloegr, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Healthcare Improvement Scotland a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol os yw'r pryder ynghylch fferyllfa gofrestrdig.

4. Canllawiau ychwanegol ar gyfer cyflogwyr

- 4.1 Mae'n bwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn i fynegi pryder am gydweithiwr neu'r sefydliad maen nhw'n gweithio iddo. Dylai hefyd fod gweithdrefnau yn eu lle i nodi pryderon y dylid eu cyfeirio at gorff rheoleiddio, megis ni. Bydd creu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo'n gyffyrddus yn mynegi pryderon yn gwarchod diogelwch pobl drwy helpu i nodi ac felly wella arferion gwaith gwael.
- 4.2 Dylai cyflogwyr:
- sicrhau bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau teg a gwydn i reoli pryderon a fynegir wrthynt. Mae angen i'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn fod yn hygyrch i bob aelod staff.
 - annog pob aelod staff, yn cynnwys staff dros dro a locwm, i fynegi pryderon ynghylch diogelwch pobl sy'n derbyn gofal, gan gynnwys risgiau wedi eu creu gan gydweithwyr.
 - sicrhau eu bod yn ymdrin o ddifrif gyda phryderon a fynegir wrthynt ac nad yw'r person a gododd y pryder yn wynebu unrhyw ddialledd.
 - sicrhau yr ymdrinnir yn llawn ag unrhyw bryderon a bod pob aelod staff, gan gynnwys gweithwyr dros dro a locwm, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd mewn ymateb i'r pryder.
- cael gweithdrefnau yn eu lle i roi cefnogaeth briodol i weithwyr fferyllol sydd wedi mynegi pryderon, a chadw cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a roddir iddynt.
 - gweithredu'n briodol i ddelio gyda phryderon sydd wedi eu mynegi yn sgil methiant i gyrraedd safonau.
 - cael systemau yn eu lle i gefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n destun pryder, boed yn sgil perfformiad, iechyd neu ymddygiad gwael.
 - cadw cofnodion addas o unrhyw bryderon a fynegir a'r hyn a wnaed i ddelio â nhw.
 - trosglwyddo cofnodion o bryderon a fynegir i'r rheolwr neu'r fferylllydd goruchwylol er mwyn iddynt ystyried y pryderon yn eu cyfanrwydd.
 - peidio â rhwystro nac atal unrhyw un rhag mynegi pryder.

5. Ble i gael rhagor o wybodaeth

5.1 Efallai y bydd gweithwyr fferyllol am gysylltu â'r elusen **Public Concern at Work (PCaW)** i gael rhagor o wybodaeth am y DDBC a sut i fynegi pryderon dan y ddeddfwriaeth honno. Mae hon yn elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i bobl sy'n ansicr a ddylent fynegi 'camymddygiad' yn y gweithle, neu sy'n ansicr sut i wneud hynny.

Os yw gweithwyr fferyllol yn ansicr a ddylent fynegi pryder, neu sut i wneud hynny, dylent gael cyngor gan:

- uwch aelod staff yn eu sefydliad
- y swyddog atebol, os mai am gyffuriau a reolir y mae'r pryder
- eu darparwr yswiriant indemniad, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall
- y Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu, os mai am gydweithiwr mewn proffesiwn gofal iechyd arall y mae eu pryder, y corff rheoleiddio priodol
- elusen Pharmacist Support
- eu hundeb

Ffynonellau gwybodaeth eraill

- Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU
www.aptuk.org
- Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd (Prif Swyddfa)
www.ghp.org.uk
Swyddfa'r Alban
www.ghpscot.org.uk
- Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol
www.npa.co.uk
- Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban
08000 724 725
- Pharmacists' Defence Association
www.the-pda.org
- Pharmacist Support
Ffôn: **0808 168 2233** (rhadffôn)
www.pharmacistsupport.org
- Public Concern at Work
www.pcaw.co.uk
- Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol
www.rpharms.com
- UNSAIN
www.unison.org.uk

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:

Tîm Polisi a Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

0203 713 8000

standards@pharmacyregulation.org

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar bynciau eraill a allai fod o ddefnydd i chi:

www.pharmacyregulation.org/standards/guidance



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org